Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol li. MEHEFIN, 1951 Rhif 6.

Nodiadau'r Golygydd.

Crefydd yr Oes.

Y mae'r rhifyn yma o'r Ymofynnydd yn cynnwys darluniad gan ferch ifanc o Wyl y Pasg yn Syra. Wedi darllen y disgrifiad hwnnw ein tuedd ni fydd dweud fel y Pharisead, "Diolch i Dduw nad ydym ni fel y bobl hyn," "Diolch ein bod wedi esgyn i dir uwch," "Diolch fod ein safonau'n amgenach," "Diolch ein bod yn Gristnogion goleuedig."

Yn ddiweddar bûm yn gwrando ar un o bregethwyr enwocaf Cymru a disgwyliwn glywed rhywbeth sylweddol ganddo, eithr yn fras dyma uchafbwynt ei neges, "Rhaid i ddyn yn gyntaf gyfrif ei hun megis dom cyn y gall ddod yn Gristion . . . Fe ddaw dydd y Farn, a'r dydd hwnnw gwelir Iesu Grist yn dod ar gefn y cymylau ac yn disgyn ar y ddaear i rannu'r cyfiawn oddi wrth yr anghyfiawn y rhai sydd wedi credu ynddo a'r rhai sydd heb gredu ynddo—(yn ôl rheolau arbennig y pregethwr)—fe â'r credadyn i'r gwynfyd bythol gogoneddus—fe â'r llall i bwll uffern ac i'r digofaint eithaf i ddioddef poenau tu hwnt i ddirnad neb."

Ychydig cyn hynny clywais am weinidog un enwad yn ymweld â chapel enwad arall i bregethu. Yr oedd y capel yma heb weinidog a manteisiwyd ar y cyfle i ofyn i'r ymwelydd a roddai iddynt Gwrdd Cymun. Pallodd yn bendant a dywedodd fod y peth yn gwbl amhosibl—ni wnai hynny ond i'w enwad ei hun. A nyni sy'n canu,

> Draw draw yn China a thiroedd Japan
> Plant bach melynion sy'n byw,
> Dim ond eilunod o'i cylch ym mhobman
> Neb i ddweud am Dduw."

Neb i ddweud am Dduw ei fod yn *Dad*, yn Dad sy'n caru Ei blant, yn Dad sy'n gofyn i'w blant garu ei gilydd.

A Beth Amdanom Ni?

Ni fynnaf gyhoeddi barn ar y ddau frawd uchod a hynny fel oracl cwbl hunan gyfiawn, soniaf amdanynt oblegid gwn y gallwn weld bai mewn eraill na allwn mo'i weld ynom ein hunain. A bûm yn holi fy hun, a wyf innau a'm enwad yn euog o osod ein barn a'n cred ar binacl gan gwbl anghofio y ddyletswydd fwy. Yr oedd y brodyr uchod yn gwbl-gydwybodol—nid oes gennyf rithyn o amheuaeth am hynny—ond gwareder ni a hwythau rhag y culni yma sy'n fwrn ar grefydd yr oes. Y mae'r Parch. Ifor Parry, M.A. yn gorffen erthygl wych ar Uno'r Eglwysi yn *Y Genhinen* ddiwethaf gyda'r geiriau, "Yn amser da Duw, tynnir ymaith y traddodiadau gosod sydd mor ddigywilydd yn gwisgo awdurdod anffaeledig ym mhob rhan o'r Eglwys heddiw. Hon fydd awr ei drugaredd Ef, pan gyfodir holl Gorff yr Eglwys i gyfryngu Gair Duw i wareiddiad sydd bron ar ddarfod amdano."

Da y dywedodd.

Gwyl y Pasg yn Syra—Gwlad Groeg.

Gan Nyrs S. Ceri Davies (Pantydefaid).

Yr wyf yn ysgrifennu hwn mewn gardd brydferth ar ynys fechan Syra a'r rhosynau a'r gwyddfid yn taenu eu persawr dros y lle. Hanner awr wedi wyth yn y bore yw hi ond y mae'n boeth yn barod ac awyr las las o gwmpas yr haul tanbaid. Ni chawsom law ers chwe wythnos ac yn ôl pob tebyg ni welir dim rhagor tan fis Tachwedd! Ni fyddai raid gofidio petai Rigeta Cei neu drip yr ysgol Sul yn cael eu cynnal yma. Gobeithio fod ambell i lygedyn yn dod i Fanc Maesymeillion.

Ond at fy mhwnc. Ar y nawfed ar hugain o Ebrill buom yn dathlu Gŵyl y Pasg yma a hynny yn y dull Uniongred traddodiadol. Gŵyl bwysig yw hon yma ac yn llawn o ryfeddodau'r dwyrain a daw'r bobl o bob man i'r ynysoedd yma i ddathlu. Y mae'r dathliad yma yn debyg iawn yn ôl yr hanes i'r hyn a geir yn Jeriwsalem a chredais felly y gallai fod o ddiddordeb i'r Ymofynnydd. Disgwylir i bawb fynd i'r gwasanaeth unwaith y dydd yn ystod yr wythnos Santaidd cyn y dydd Mawr ac ar Nos Iau fe ddechreuir o ddifri gyda'r Ŵyl. Dyma'r gwasanaeth cyntaf a gefais a pharhaodd o 7 p.m. hyd 11.30 p.m., ac euthum yno wrth gwrs yng nghwmni'r teulu lle'r wyf. Eglwys gadeiriol fawr ydoedd wedi ei gwisgo'n oludfawr a phob math o offer aur ac arian a

pherlau gwych. Goleuwyd y lle â golau llachar-wyn a hwnnw'n pefrio ar y canwyllbrennau crog o wydr cost-fawr. Y mae'r allor wedi ei chau i mewn yn yr Eglwysi Uniongred ac ni chaniateir neb ond dynion i sangu ar ei gynteddau. Heno mae'r drws ynghau arno.

Wrth fynd i mewn drwy ddrws yr eglwys bu raid i ni brynu cannwyl bob un ohonom, ac os ydych yn perthyn i deulu'r Ffydd rhaid i chwi fynd ar dro heibio i bob creirfa (shrine) a chusanu'r ikon ymhob un. Gan fy mod yn Undodwraig fe'm hachubwyd rhag hyn ! Fe'm synnwyd i weld y lle yn orlawn, a gweld pawb yn sefyll ar eu traed oherwydd nid oes yno seddau o gwbl ar wahan i ddwsin efallai i'r hen a'r methedig. Gwisgwyd y muriau â blodau amryliw a'r rheiny yn ymdoddi i'r harddwch o'i cwmpas. Darllenir deuddeg rhan o'r efengylau ac ar ôl y pumed agorwyd drws yr allor a gwelsom groes ddu blaen yn y canol. Yna daeth y tadau i grogi delw'r Crist arni ac fe'i dygwyd o gwmpas yr Eglwys a'i gadael yn y canol. Fel yr oedd y groes yn mynd heibio iddynt goleuai pob un ei gannwyll ac fe daflai ei flodau arni a thyrrai'r ffyddlon i osod torchau hardd wrth ei thraed a'i chusanu. Ar ôl hyn darllennir y saith ran arall o'r efengylau. Ar hyd yr amser wedi gosod y ddelw yr oedd y clychau yn oer-ganu cnul pruddaidd, arswydus yn ei arafwch.

Ar ddydd Gwener y Groglith, trannoeth, euthum yno am ddeg y bore a hanner ffordd drwy'r gwasanaeth tynnwyd delw Crist oddi ar y Grog ac fe'i rhwymwyd mewn lliain gwyn a'i osod mewn bedd a baratoisid at y gwaith. O hyn ymlaen cusenid y bedd ac fe ai'r bobl o un eglwys i'r llall i gusanu pob croes. Fe'u gwyliais am dro a mynd adref i gael pryd o fwyd.

Y nos honno yr oedd y lle'n llawnach fyth ac o'm cwmpas yr oedd merched o'r lleiandy wedi eu gwisgo mewn du a gwyn a phob un yn cario basgedaid o betalau rhosynnau. Yr oedd milwyr yno hefyd, pob un a'i ddryll yn pwyntio at y llawr. Dyma'r unig amser y clywir canu yn yr eglwys a gwnant hynny gan dyrru o gwmpas y bedd. A phan geir arwydd oddi wrth yr Esgob gwelir y merched yn taflu'r petalau ar y bedd. Dylwn ddweud mai math o ' sedan chair ' yw'r bedd a daw cludwyr swyddogol mewn dillad du a menyg gwynion i'w godi a'i gario allan ar flaen yr osgordd. Ânt o gwmpas sgwâr y dref, ac yn sydyn wrth edrych arnynt, gwelais rywbeth a'm dychrynodd am ennyd. Uwch fy mhen, fry yn yr awyr yr oedd croes fechan a honno yn edrych yn gwbl annaearol. Ond wedi meddwl, deallais mai'r groes ar dŵr yr eglwys ydoedd ond ei bod wedi ei goleuo, a chan fod y tŵr yn ymgolli yn nhywyllwch y nos credais ei bod yn crogi ar ddim.

Nos Sadwrn aethom eto fel teulu a'r un oedd y drefn ag eithrio fod pob un yn dwyn ei gannwyll ganddo'r tro hwn. Tua deng munud i ddeuddeg diffoddwyd goleuon yr Eglwys o un i un ac yn

araf araf agorwyd drws yr allor a daeth yr Esgob allan drwyddo yn rhwysg ei wisgoedd traddodiadol. Yr oedd coron berlog ar ei ben ac yn ei law, cannwyll—y ' goleuni sanctaidd ' oedd hwn. Llefarodd weddi ac yna cyneuodd gannwyll y swyddog nesaf ato ac fe aeth y golau o gannwyll i gannwyll hyd onid oedd cannwyll pawb o'r gynulleidfa fawr yng nghynn a'r lle'n olau drwyddo. Aeth yr esgob allan, esgynnodd i lwyfan a orchuddiwyd gan garped o balmwydd ac ar drawiad hanner nos llefodd yn uchel "Christos Anesti," *Atgyfododd y Crist*, a throes pawb at ei gilydd gan ddweud, ' Yn wir Crist a atgyfododd,' gan symud eu cannwyllau i fyny ac i lawr dair gwaith fel offrwm i'r Iesu.

Yr oedd gan bob un hefyd wy coch ac yn union wedi cyhoeddi'r atgyfodiad yr oedd pob un yn torri masgl yr wy. Ar ôl hyn aeth pawb i'r Uchel Offeren gan orffen yr Ŵyl tua hanner awr wedi dau y bore. Ac O ! 'r olygfa oedd gweld pawb yn teithio tua thre a channwyll yn ei law, y dyrfa'n glwstwr wrth ddrws yr eglwys ac yna un yn llwybro yma a'r llall acw hyd onid oedd y goleuadau bychain yn pefrio ym mhob cyfeiriad. Goleuni'r byd yn cyrraedd i bob man ar ôl ei dderbyn gan y Crist atgyfodiedig—dyna oedd y simbol.

Wedi cyrraedd yn ôl i'r tŷ yr oedd gwledd fawr yn ein disgwyl ac oen cyfan wedi ei rostio ar droell uwchben tân agored. Yr oedd yno gannoedd o'r wyau coch hefyd a dyma bawb yn bwrw ati wedi ympryd hir i ennill yn ôl a gollwyd.

Bore trannoeth cusanai pawb ei gilydd gan ddweud, ' Atgyfododd Crist ' a hyn a oedd yn arwydd ei bod yn gyfeillion bawb bellach.

Gobeithio fy mod wedi llwyddo i roi rhyw syniad o aruthredd a rhwysg yr Ŵyl ryfedd yma i chwi, ond er ei mawredd rhaid cyfaddef y byddai'n well gennyf fod adref yn y Gymanfa Fach

15 : 5 : 1951.

Claddu'r Iesu.

Yr Efengyl yn ôl yr Eglwysi. Yr unig Bennod, a'r adnod gyntaf. A hwy a ofynnasant am gorff yr Iesu, ac wedi ei rwymo mewn lliain hwy a'i gosodasant mewn bedd yn y graig ac aethant ymaith.

Dyma hanes dyn da. Hanes llawer dyn da mae'n debyg. Mab Joseph a Mair oedd Iesu, mab i saer a'i wraig, a mwy na thebyg mai Saer oedd Iesu ei hun. Ond daeth syniadau i ben y bachgen yma, ac y mae'n beryglus bob amser pan fo saer yn cael syniadau. Yr oedd yna reol bendant ymhell cyn amser Iesu na ddylai seiri fod yn ddim ond seiri, yn seiri da, yn seiri ufudd ac yn seiri heb

syniadau. Perthynai'r hawl i gael syniadau i frenhinoedd ac offeiriaid, i'r llywodraethwyr a'r rheolwyr. Ond yn lle stico at i waith ac yn i waith fel dyn parchus, aeth y saer hwn mor haerllug a dechrau ymhel â syniadau. Yn wir pan oedd y saer yma tua deg ar hugain oed aeth mor ddwl, ac mor anhebyg i seiri parchus cyffredin, fel y dechreuodd siarad am ei syniadau a hynny yn gyhoeddus. Ar y dechrau credodd rhai pobl mai gwres yr haul oedd wedi codi yn ei ben ond pan ddechreuodd ddweud pethau fel "Cerwch eich gelynion," "Gwnewch dda i'r rhai a'ch casânt," "Gwyn fyd y tlodion canys eiddynt yw Teyrnas Nefoedd" a "I'r hwn a'th drawo ar dy foch ddehau dyro dy foch aswy hefyd," gwyddai pob dyn call yn Nazareth a'r cylch ei fod yn wallgo wyllt, yn ddwl holics.

Yn anffortunus nid oedd gan yr oes honno holl fendithion ein gwareiddiad ni heddiw. Hynny yw, yr oedd prinder carchardai a gwallgofdai, nid oedd na rule 18b i'w gaethiwo na *tear gas* i daflu ato. 'Doedd na ddim Undeb Seiri i'r wlad gael mynd ar streic, felly fe'i gadawyd i rodio'n rhydd am flwyddyn gyfan a mwy. Truenus o beth. Fuasai hynny byth wedi digwydd heddiw.

Yn ystod yr amser hwn fe ddywedodd bethau rhyfeddach eto, a mwy na hynny fe ddechreuodd ryfygu yn warthus drwy ddweud mai Duw, ei Dad a oedd yn rhoi'r syniadau yma yn ei ben. Yr oedd yn amlwg ddigon y dylai'r dynion doeth a fuasai yn gyfeillgar iawn â Duw ers blynyddoedd wybod yn well. Hwy oedd wedi bod yn gwneud gwaith yr Hollalluog ar y ddaear, hwy oedd wedi gweinyddu ei gyfreithiau dyrys yn drwyadl—pa hawl oedd gan rhyw laslanc fel hwn i sôn am y pethau hynny. Buont yn rhesymu ag ef, dadlau ag ef—ond ni wrandawai arnynt. Gwyddai'r doethion mai Arglwydd y Lluoedd a'r Rhyfeloedd oedd Iehofa, a gwyddent ei fod yn dyheu am weld Israel yn rhoi crosfa dost i bob un o'i gelynion. Ond y saer hwn—y saer siaradus hwn—mynnai ef yn ei wallgofrwydd mai Tad cariadus oedd Duw ac yr hoffai weled heddwch a thangnefedd rhwng dynion. Beth allech chi wneud a dyn felna ? Fyddai dynion ddim yn ddynion heb gwerylon ac ymladd. Beth oedd rhyw gonshi fel hwn yn ochr y Brenin Dafydd. Ond y rhyfeddod oedd hyn, fod gallu gan y saer siaradus yma i ddenu dynion i'w wrando a'i ganlyn. Fe'i casglodd o bob man mae'n wir, pysgotwyr, casglwyr trethi, pobl o'r gwteri—teip *common* iawn i gyd wrth gwrs. Aeth mor bell hyd yn oed â chyfeillachu â mynwod drwg gan ddweud fod Duw yn ei caru—peth oedd yn gwbl afresymol wrth reswm.

Fel y disgwyliech, ni allai Duw'r Lluoedd ddioddef hyn yn hir iawn, felly fe aeth ati o ddifri i brocio cydwybodau'r offeiriaid a'r arweinwyr gyda llef ddistaw fain fel taran. A chan fod Arglwydd y Lluoedd yn Arglwydd cryf a nerthol ni bu hir cyn fod ei bobl ufudd yn codi mewn eiddigedd cyfiawn.

Yn y cyfasmer, aeth yr Iesu, y saer siaradus yn ddwlach a dwlach. Dywedodd ei fod yn barod i farw dros ei syniadau a thros ei gyfeillion. 'Roedd e'n gofyn amdani yn ddi-ddadl. Felly fe aeth rhai o'i gyfeillion a nifer o'i elynion mwyaf calon agored ati yn ddiwyd i weld ei fod yn cael ei ddymuniad. Wrth lwc cafwyd permit yn hollol ddi-drafferth a gweinyddwyd y seremoni yn ddioed. Nid oes eisiau manylu am y digwyddiad, oherwydd fel y gwyddoch, aeth popeth yn hwylus—*according to plan.* Gallwn ail adrodd adnod y testun, "A hwy a ofynnasant am gorff yr Iesu, ac wedi ei rwymo mewn lliain main, hwy a'i gosodasant mewn bedd yn y graig, ac aethant ymaith." Chwi gytunwch fod hynny yn beth caredig dros ben.

Ond yn anffodus dechreuodd pethau fynd yn lletchwith unwaith eto. Yr oedd y doethion, yn ei brys i wneud bendith â chymdeithas, wedi anghofio un pwynt pwysig iawn, a dyma fo. Heb ddim un rheswm yn y byd am hynny, yr oedd y saer siaradus hwn, Iesu, wedi ei wneud mewn dwy ran. Y tragedi oedd fod yr arweinwyr wedi lladd dim ond un rhan gan adael y rhan arall, a gyfenwir weithiau yn enaid yn fyw ei gwala. Chwarae teg ni allech ddisgwyl i'r doethion wybod ei fod yn berchennog ar yr ail ran yma, oherwydd dim ond corff sydd gan y rhan fwyaf o ddynion cyffredin. Rhywbeth od yw'r ail ran yma hefyd. Gellir ei chyffelybu i *spare wheel* ar fotor car, fe'ch cynorthwya i fynd ymhellach pan ymddengys fod y siwrne ar ben, a'r *breakdown* wedi cyrraedd. Felly oedd hi yn hanes yr Iesu ta beth, aeth rhagddo hyd yn oed ar ôl i'w gorff gael ei osod yn y bedd.

Daliodd ati i boeni pobl yn yr union ffordd wallgo a chynt, gan ei hysgogi i ddweud pethau pigog am y llywodraeth, am yr offeiriaid, am wasanaeth y Deml a'i haberthau ac am fyd a bywyd. Ymosododd ar Baul y gwlatgarwr diwyd ar y ffordd i Ddamascus, gan ei orfodi i droi yn ôl gan glebran fel ffŵl gwirion gydol ei oes. Fe wnaeth dramps o'r disgyblion, ac ni wyddai neb beth a wnai nesaf. Bwriodd ymaith ofn llewod yn ffeuau'r Rhufeinwyr, nid ofnent y teigrod yn y temlau. Gyrrodd bobl ar ffo i Roeg a Mesopotamia, i Ephesia a Phillipia i garchardai ac i farwolaeth. Yn wir ni fu'r fath niwsans mewn gwlad erioed a hwn.

Yr oedd yn anodd deall y dyn a'i gorff, yr oedd yn anos deall y rhan grwydrol yma, yr ysbryd na lethwyd mohono gan haint a fflangell, na rwygwyd mohono gan hoelion croes. Ond wedi deall peth ohono, penderfynwyd unwaith eto mai'r ffordd orau i'w ddisgyblu oedd ei gladdu. Aethpwyd ati i gladdu'r ysbryd wedyn.

Ni wnai bedd mewn craig y tro yn awr. Na yr oeddynt yn rhy glyfer i'w dal y tro yma. Felly, penderfynwyd ei gladdu mewn llyfrau—bedd od, ond bedd da. Ysgrifenasant erthyglau amdano gan feddwl yn sicr y byddai hynny'n siwr o'i ddistewi am byth. Fe'i disgrifiwyd fel rhywbeth mor anhebyg i ddyn fel na allai neb

a'u darllennai gredu fod y fath beth wedi bod. Dywedwyd fod seren wib yn gwylio man ei eni, iddo gerdded ar ddwfr, ddarfod i'w gorff marw gerdded y wlad, ac ychydig o bethau eraill er mwyn sicrhau pawb mai drychiolaeth oedd y cyfan. Ond wrth ysgrifennu gwnaeth rhai ohonynt slips eto, treiglwyd y garreg, a daeth yr hen ysbryd crwydrol i'r golwg rhwng y llinellau.

Aethpwyd ati drachefn. Yr oedd yn rhaid claddu'r niwsans hwn. Dyfeisiwyd Pab i eistedd ar y llyfrau i'w atal rhag dod allan. Casglwyd cyngor yn Nicea i'w rwymo'n dynn mewn cyfraith, ond datododd ynfytyn o'r enw Arius un o'r cylymau, ac allan ag ef eto. Fe'i claddwyd mewn celloedd bychain, fe'i gorchuddwyd gan oesoedd tywyll, ond waeth beth a fo, deuai rhyw ynfytyn neu gilydd i'w ollwng allan. Rhyw Francis o Assisi, rhyw Fartin Luther, rhyw Joseph Priestly, rhyw Channing neu Wilym Marles. A pha bryd bynnag y deuai allan o gell a bedd, o gapel clo, o erledigaeth gyfyng, 'roedd yn creu terfysg a chwyldro ac ysgogi pobl i wneud pethau dwl fel cael ysgolion i blant tlawd, rhoi'r caethweision yn rhydd, rhoi beiblau i'r bobl, dweud fod dynion yn gydradd a bod hawl gan bawb ar freiniau rhyddid.

Adeiladwyd eglwysi mawrion; codwyd teimlau cadeiriol a chyflogwyd dynion galluog i ddweud fod hyn oll yn gelwydd. Fe daflwyd yr ysbryd aflonydd allan ar ei ben, ond nid cynt allan nag y dechreuai siarad eto mewn sgubor ac ogof, mewn marchnad a maes. A phan oedd yr hela galetaf dywedir fod yr ysbryd blinderus a phoenus hwn wedi bod yn cwato yng nghalonnau dynion fel cadno mewn coedwig.

Mae'r byd wedi gorfod ymladd yn galed yn erbyn hwn ac ni orffennwyd y strygl o bell ffordd. Fel y gwyddom ni sy'n byw yn yr oes hon, y mae hwn yn dal yn niwsans o hyd. Mae yn gyrru pobl i wneud pethau heb obaith cael tâl amdanynt. Mae'r ysbryd yma yn cynhyrfu dynion i ddweud pethau y'i casheir o'i plegid. Yr ysbryd rhyfedd hwn na ŵyr mo'i gladdu, na fyn mo'i wareiddio. Ceisiwyd ei orfodi i'r fyddin, cael dysgu manners iddo, ond ni thalai ddim. Ceisiwyd gwneud blaenor ac aelod seneddol ohono er mwyn ei ddistewi, ceisiwn ei ddychrynu gan storïau am fom Atomig, ond ni wrendy ef, nid oes arno'i hofn. Ceisiwyd ei gladdu mewn llyfrau, ei guddio mewn credoau, fe'i rhwymwyd a lliain main cyfreithiau gwlad ac eglwys. Taflwyd pridd a pholitics ar y bedd—taflwyd pleidleisiau ac addewidion rhad yn rhwyd o'i gylch. Ond cyfodi a wna, mae yn treiglo'r cerrig o hyd, yn datod pob lliain tŷn.

Yr ydym wedi bod wrthi am 2,000 o flynyddoedd yn ceisio claddu'r Atgyfodiad Mawr, ond mae'r ysbryd ar gerdded o hyd. Beth gawn ni neud ag e? Ydi chi wedi llwyddo i'w gladdu?

Lloffion o Hen Lyfrau.

Casglwyd gan Y Golygydd.

Beth yw Sosin.

"*Llythyr at Gyfaill.*

Bont-fawr ar Daf, Dydd Calan 1830.

Annwyl Gyfaill,—

Y mae hiliogaeth hen Sosiniaid Ciliau Aeron, er eu holl ymdrech, yn methu denu fawr pobl yn Morganwg i gofleidio eu athrawiaeth anysgrythyrol. Yr ychydig sydd yn ei phroffesu, ydynt, gan mwyaf ddynion dibris am bob math o grefydd : eu diben pennaf i gymryd arnynt gredu eu math o athrawiaeth, yw, er mwyn hocced ddadlau a thwyll ymresymmu dynion duwiol allan o amynedd ; ac os gallant ysbeilio rhai o'u cred yn ngair Duw. Hyn sydd amlwg oddiwrth eu harfer yn defnyddio eu crefydd megis peiriant, i flino ereill, yn lle bod yn rheol ffydd ac ymarferiad iddynt eu hunain. Eu buchedd a'u hymddygiad ydynt yn dangos nad oes ganddynt un nod i gyrchu ato, ond pleser neu elw presennol yn y byd hwn . . ."

Dyna ddigon o'r hen bamffled i ddangos mai'r un dull sydd gan wrthwynebwyr i drin y Sosiniaid, ' ddoe heddiw ac yfory.'

Beth yw Crefydd ?

Adroddir yr ystori ganlynol am Indiad Mohegan yn Connecticut : "Tybiwch eich bod yn cael mynd i'r nefoedd, a'r Ysbryd Mawr yn gofyn i chwi, Pwy ydych chi, chi ateb, mai Presbyterian ydych. Yna fe dweud, 'steddwch chi fan yna, ar y sêt fach yna, ac aroswch chi fan yna, a peidiwch a mynd i un man arall. Un arall yn dyfod i'r nefoedd, Fe yn gofyn, pwy ydych chi ? Fe ateb, Bedyddiwr wyf fi. 'Steddwch, ebe yntau, ar y stôl fach gul yna ; peidiwch gadael neb i eistedd na bwyta gyda chi, na dod yn agos atoch chi ; cedwch y sêt i gyd i'ch hunan ; cedwch y canu a'r llawenydd i gyd i'ch hunan. Un arall yn dod. Fe dweud, Pwy ydych chi ? Fe ateb, Methots wyf fi. Yna fe dweud, steddwch yn y cornel acw ; a cadwch un i sefyll, i gadw pawb i bant sydd ddim yn gwneud cymaint o fwstwr ag ydych chi yn gwneud yn eich addoliad. Un arall yn dod, Fe gofyn, pwy ydych chi. Fe ateb Cwacer. Yna ysbryd mawr yn ateb, 'steddwch chi draw, draw fanacw, wrth eich hunan fel na byddo i'r rhai stwrllyd yna i'ch blino chi . . . Ar ôl y rhai hyn i gyd, dyma'r Indiad yn dod. Yr Ysbryd Mawr yn gofyn, Pwy ydych chi ? Fe dweud, mae fi yn caru yr Ysbryd

Mawr a'm holl galon, a'm holl enaid, ac yr wyf yn caru pawb sydd yn ei garu ef mewn gwirionedd. Yna yr ysbryd Mawr yn dweud wrtho, 'steddwch chi lle mynnoch chi, cerddwch lle mynnoch chi, dros yr holl nefoedd ; bwytewch ble a pheth y mynnoch, mwynhewch bob rhyddid all y nefoedd roddi ; byddwch gyffelyb i'r angylion, ac nid oes raid i chwi gyfyngu eich hunan i unrhyw sêt."

O'r Ymofynnydd, 1861.

Beth yw Henaint ?

Achwyniad Mewn Henaint.

(Rhannau ohono).

Cwyno'r ydwyf rhag henaint,
Cwyn hir gan ddryghin a haint.
Gwden anwydog ydwyf,
Gwedi nerth, gwywa dyn wyf.
Di eiddil a da oeddwn,
A chryf, a gorwyllt a chrwn :
A hefyd esgud ysgawn,
I ben yr allt buan 'r awn.
Trin y bêl a phob helynt,
A rhedeg fel gwaneg gwynt.
Heddiw os i'r rhiw yr af,
O arfeddyd, hwyr fyddaf,
Ysgwyddau anosgeiddig,
A chorff heb na lliw na chig.
A'r breichiau fel ffystiau ffyn,
A gwayw sy ym mhob gewyn.
Anaf lesg yn goresgyn,
A'r blew a'r gwallt yn blu gwyn :
A'r dannedd o salwedd sôn,
Aflunaidd yn felynion.
A'r olwg ddiwg ddeall,
Truan o ddyn, yn troi'n ddall.
Crynedig i'm croen ydwyf
Cryniad deilen aethnen wyf,
Ni thyn na chlydwr na thân
Na dillad, f'annwyd allan.
Rhoed Duw'm bwll, rhaid im bellach
Ryngu bodd yr angau bach.

O Rhifyn III *Y Drysorfa Symmysgedig*, 1796.

Beth yw Iaith ?

Rhoddir yma adnodau cyntaf Genesis mewn tair o'r ieithoedd Celtaidd, y Gymraeg, Cernyweg (Cornish) a'r Llydaweg (Iaith Shoni Wynwyn) ac er rhwyddineb fe'u gelwir yn *a*, *b* ac *c*.

1. (*a*) Yn y dechreuad Duw a wnaeth nef a'r ddaear.
   (*b*) Y'n dalleth Dew a wrûg nêf ha'n nôr.
   (*c*) En'n deraou, Doue a reaz an nev hag an douar.
2. (*a*) Ac yr oedd y ddaear heb ffurf a gwag, a thywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder, ac Ysbryd Duw wnaeth symud ar wyneb y dyfroedd.
   (*b*) Hag ydh esê an nôr heb composter ha gwag ; ha tewoglow esê war eneb a'n downder, ha Spyrys Dew rûg gwaya war enep a'n dowrow.
   (*c*) Hag an douar a oa heb furm ha goullo, ha tewalizen oa war weneb an dônder, ha Spered Doue a reaz c'hildro war weneb an daureier.
3. (*a*) A Duw a lefarodd : Bydded golau, ac yr oedd golau.
   (*b*) Ha Dew a leverys, Bydheus golow, hag ydh esé golow.
   (*c*) Ha Doue a lavaraz : Bet goulou, hag ar goulou a oa.

O'r *Cymru*, 1898.

BETH YW RHAGRITH ?

OWEN EVANS CEFC COED A'R BOTEL WENWYN.

"Tua diwedd y *forties* a dechrau y *fifties,* onide, yr oedd y twrio Mormonol ar ei uchaf ; ac un o'r apostolion mwyaf gweithgar oedd y Cadben Jones, brawd y Parch. John Jones, Llangollen. Clywodd y Parch. Owen Evans am y Cadben, ei fod yn dywedyd pethau rhyfedd i lawr tua Merthyr a phenderfynodd fyned i gyfarfod ag ef . . . Talodd ymweliad yn gyntaf a'r fferyllydd, Mr. Thomas Stephens, feddyliwn ac wedi ychydig ymgomio cafodd ddwy botel fach i fynd gydag ef yn ei boced i'r cwrdd . . . Adroddodd y Cadben y pethau rhyfedd oedd o fewn gallu ' Seintiau y Dyddiau Diwethaf.' Adroddodd yr adnodau yn Efengyl Marc xvi, 17 a 18 yn cynnwys ' ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed ' ac haerodd y gallai'r ' Seintiau ' wneuthur y pethau hyn oll.

Wedi iddo orffen gofynnodd Mr. Evans iddo a allai wneuthur y pethau yr haerai eu bod o fewn gallu y ' saint.' Atebodd y gallai. "A allai efe yfed gwenwyn marwol a dianc heb niwed ?" Atebodd eto y gallai. Ar hyn tynnodd Mr. Evans botel fach allan o'i boced, ac estynodd hi i'r Cadben, yr hwn wedi darllen y label arni—*Prussic Acid* : *Poison*, a ddywedodd mai'r Diafol oedd wedi gosod yng nghalon Mr. Evans i'w demptio i'r fath brofedigaeth waradwyddus. Na, nid yfai efe o'r botel ; na wnai yn sicr ddim o'r fath beth ! "Yfwch, yfwch," meddai'r dorf, "yr ydych wedi addo yfed." Estynodd y Cadben hirben y botel yn ôl i Mr. Evans. Cymerodd yntau hi yn ei law a dywedodd yr yfai efe ef ei hunan ; nad oedd ynddi ddim ond *dwfr glân !* Ar hynny yr oedd yno chwerthin iachus a gwawdio uchel, ar ôl ei holl ymffrost ; ofn yfed dŵr glân. Rhag digwydd y buasai'r Cadben yn lled-dybio

cynwysiad y botel, yr oedd Mr. Evans wedi dod â'r *genuine article—Prussic Acid*—gydag ef yn y botel arall. Ond nid oedd dim o'i heisiau.

P.P.

O'r Ymofynnydd, 1895.

Cwest yr Ugeinfed Ganrif. Rhif IV.

Y DYCHYMYG.

Gan D. Ll. Carrellio-Morgan.

Cyn y gellid esbonio dychymyg, byddai'n ofynnol plymio yn hir a dwfn iawn i'r sianel gyferbyniol i'r gallu sef, y dallineb ysbrydol. Nid oes neb, hyd yn hyn, wedi llwyddo i gyfuno'r ddau beth yn drwyadl. Methodd Stekel, Freud a Flammarion. Un peth a wyddom yw fod dychymyg yn gweithredu yn ôl cyfres o ddeddfau arbennig y rhai a enwais i yn "invoking laws," a'r oll yn gyplysedig â'r greddfau creadigol ("creative instincts"). Dywed y Doctor Charles Boltwood fod y syniad yma yn un sy'n agos i'w le, ond amser a ddengys.

Nid yw dyn, fel creadur, yn grêwr. Gellir dweud hyn gyda sicrwydd bellach mewn cysylltiad â'r cerfluniwr, yr arlunydd, neu'r bardd. Eithr trosi y maent hwy, a'r pethau a drosir ganddynt yw profiadau cynnar dyn a'r greadigaeth. Y mae dyn, fel bod, cyn hyned a'r blaned drefnus ei hun oblegid yn union wedi'r tryblith cyntaf y medr dyn feddwl amdano, mynnodd deddf bywyd fynegi ei hun ym mhob dull a modd.

Nid yw'r gwerslyfrau sydd gennym yn delio â seiliau dychymyg o ryw lawer o help i'r efrydydd modern. Gwasgaredig iawn yw'r gwersi ac anfoddhaol iawn yw'r clo ym mhob un ohonynt. Gedy'r ysgrifennydd, fel rheol, yr efrydydd i benderfynu drosto'i hun pa un ai doeth neu annoeth a fai derbyn y ddamcaniaeth. Nid yw peth o'r natur yna na phoeth, oer na chlàear.

Ar hyn o bryd, y mae ein pwerau dychmygol ni mewn ystad o ddybrydwch cymhleth, a hynny oherwydd y ffaith ein bod yn feunyddiol mewn brwydr ddygn iawn rhwng yr allanol bethau â'r mynegiadau mewnol. Dyna sy'n cyfrif, yn ddios, am ddiflaniad y diddordeb praff a fu yng ngheinder crefft. Rhoddir rhywfaint o'r bai ar y peiriannau diweddar. Y mae hynny, hwyrach, yn wir i raddau ond nid dyna'r gwir yn ei gyfanswm. Y mae dehongli harddwch y greadigaeth yn gelf, ac mewn oes wyllt fel hon, y mae'n anodd i'r unigolyn artistaidd ei feddwl i gadw'i gam gyda rhiddm naturiol yr ego-ysbrydol. Yn sgil hyn oll, cyll y crefftwr ei olwg a'i ddiddordeb yn y peth,—a oedd yng nghwrs datblygiad ei ddar-

felydd,—yn nôd celfyddydol yn ei enaid. Ac mae'r posibilrwydd yn dod yn nes atom y bydd i grefftwyr mawr y dwyrain golli'r cywreinrwydd a welir heddiw yng ngwaith llaw a phen, yn arbennig pan dry'r dwyrain hefyd at beirianwaith a moddau gwyddonol.

Yr ydym, hyd yma, ymhell iawn o gyrraedd yr esboniad drylwyr parthed natur a seiliau dychymyg. Yn wir, y mae'r esboniad o hyd yn eisiau. Hwyrach y gallasai'r cerflunydd, neu'r bardd, er engraifft, daflu fflach o oleuni ar y pwnc ond, yn anffodus, y mae'r dosbarthiadau yma hefyd wedi mynd yn ysglyfaeth ers talm i awdurdod haearnaidd y "ffeithiau". Nid erys, felly, namyn profiad personol yr unigolyn.

Y mae ar gofnod gennyf hanes profiad rhyfedd a ddaeth i'm rhan rai blynyddoedd yn ôl. Rhwng naw a deg un noson dywell yng nghanol gaeaf, cerddwn dros briffordd Pontarfynach o Gapel Seion i Aberystwyth ; taith pedair milltir. Toc, wedi cychwyn y daith, daeth i'm cof rhyw broblem yn codi o'm gwaith beunyddiol ond, yn sydyn, megis gwib y fellten, cefais weledigaeth annisgwyl iawn ar un agwedd i'r bywyd hwn a oedd cyn hynny, yn ddryswch perffaith i mi o bob safbwynt. Am ryw hanner awr o'r daith, bu'r meddwl yn gaeth i wê laes o feddyliau a darluniau anhygoel a phan gyrhaeddais y tŷ, penderfynais nodi'r profiad. Wedi hynny, yn oriau seibiant, bûm yn troi a throsi'r weledigaeth o lawer safbwynt ac, o'r diwedd, daeth yr awydd i grisialu'r profiad mewn cerdd a honno, yn ddiau, yw un o'r pethau mwyaf profoclyd i enaid dyn a gyfansoddais erioed. Enw'r gerdd—pan ddarllenoch hi yn y dyfodol—yw, "Lone House."

Yn awr, a fedrir rhoddi i'r efrydydd esboniad ar y profiad a nodir yn ei gysylltiad â dychymyg. Fe welodd Duw yn ddoeth a da na roed i ni namyn ychydig o oleuni ar y daith hon ac, yng ngeiriau fy hendad, terfynaf yr ysgrif hon—"Goleuni a doethineb i fesur ac i wneuthur un cam". A digon yw.

"Tro i Dretegan".

Stori i'r Plant lleiaf.

Gan D. Jacob Davies.

'Rwy'n hoff iawn o fynd am dro i Dretegan a byddaf yn mynd yno bob amser tua adeg y Nadolig. Ac wedi bod yno eleni yr ysgrifennais yr hanes yma. Digon tebyg fod rhai ohonoch chwithau wedi bod yno hefyd ar ryw dro.

Wel, tre fach yw Tretegan ar waelod mynydd mawr ac wrth ymyl y môr. Ac nid oes wahaniaeth pa bryd yr ewch yno y mae haf hyfryd ar lan y môr, y dŵr yn dawel, y tywod yn felyn a'r haul yn

boeth. Yn wir nid oes raid i un malwoden i gario cragen ar ei chefn, na rhaid i un dyn wisgo ymbrela uwch ei ben oherwydd nid oes sôn am law yna.

Ar y dŵr mae llongau bach yn morio dan hwyliau coch, a dyn eis-crïm yn rhannu cornets am ddim ar y traeth. Ac os digwydd i ryw blentyn rhyfedd wrthod cymryd yr eis-crïm y mae'r dyn bach yn gwenu ac yn rhoi tair ceiniog iddo am ei gymryd. Dyna sut mae pawb yn gwneud busnes yn Nhretegan. Nid oes creigiau ar lan y môr yma o gwbl dim ond india rock, ac yn lle gwymon mae rhaffau o chewing gum y gallwch ei dynnu am latheidi.

Peth arall nid oes y fath beth a nos yma o gwbl. Os bydd yr haul yn ceisio mynd i lawr (fel y mae yn gwneud ar dro), mae'r ieir bach yr haf i gyd yn cydio yn ei ymyl ac yn ei dynnu yn ôl. A chan nad oes nos nid oes gwely na mynd i'r gwely'n gynnar wrth gwrs.

Yno, o'r tu ôl i'r dref mae'r mynydd y soniais amdano ; Mynydd mawr a'r eira yn drwch gwyn arno ar hyd y flwyddyn. Nid oes neb wedi dringo i ben y mynydd yma erioed ond dywedir mai yma y mae dynion eira yn byw. Wrth waelod y mynydd mae cartref Santa Clôs ; tŷ mawr coch a gwyn a miloedd o simneiai o bob math ar ei do. Yno y mae Santa yn practeiso dod lawr i simneiai fel y gall fynd drwy unrhyw gorn simdde ar nos cyn Nadolig. O'r tu ôl i'r tŷ mae ei ffactri fawr lle gwelwch gannoedd o ferched yn gwau hosannau a'u llanw o bob math o bethau hyfryd. Yna o'r tu blaen mae parc mawr a dau garw cyrniog hardd yn pori.

Santa Clôs yw Maer a dyn pwysicaf Tretegan, ac ef oedd yn gyfrifol am ei adeiladu ac am y pethau rhyfedd sydd yno. Er enghraifft mae pob tŷ yn dŷ bach tlws a thri tap ym mhob tŷ. Tap dŵr oer, tap dŵr poeth a thap lemonêd. Wrth gwrs rhaid i chwi fod yn ofalus iawn gyda rhain neu efallai y cewch chwi fath mewn lemonêd ! Y mae'r tai yma yn lân iawn hefyd ac ni welwyd llygod yn y lle erioed ac eithrio Mici Mows neu ddau. Mae Pwsi Meri Mew yn gofalu am hynny. Wedyn yn y tai yma mae pob cloc yn gloc-gwcw, ond yn lle dweud ' cwcw ' yn unig mae'r cloc yn canu faint o'r gloch yw hi fel hyn, ' Cwcw—un o'r gloch ; cwcw—dau o'r gloch ! ' Felly nid oes raid dysgu sut i ddeall cloc o gwbl yn Nhretegan. Y mae peiriant bach yng nghefn llyfrau hefyd, a dim ond i chwi agor y llyfr mae yn dweud y stori wrthych neu ganu'r penillion, os mai penillion sydd ynddo. Ac yn lle lluniau llonydd, mae'r cyfan yn fyw i gyd.

Ond y lle gorau i gyd yn Nhretegan yw Siop hen Fenyw Fach Cydweli. Fe wyddoch wrth gwrs ei bod hi wedi gorfod symud o Gydweli oddiar yr amser pan ddaeth *points* ar loshin. Yr oedd hi yn dal ymlaen i werthu loshin du yn yr hen ffordd ac nid oedd yr *inspectors* yn fodlon. Fel y cofiwch yr oedd yn ' rhifo deg am ddim-au, ac unarddeg i fi.' Wel, nid yw'r gyfraith, sydd yn ddim byd ond enw arall ar blisman, yn caniatau i chwi roi loshin dros ben

heddiw, felly daeth y Fenyw Fach i Dretegan, lle mae hynny'n bosibl. A dyma lle mae'i yn y stryd fawr ar lan y môr yn gwerthu loshin gystal ac erioed yn y 'Cydweli Loshin Shop.' Mae teuluoedd Tretegan yn galw heibio i'r siop i gyd yn ei tro. Dyma i chwi rai ohonynt a welais yno y dydd o'r blaen : Dai Bach y Sowldiwr a chwt i grys e mas, yn dod ar garlam ar gefen yr ebol melyn a deg o sowldiwrs bach tun yn martsio o'r tu ôl iddo.

A'r mochyn du yn morio
Bob cam mewn padell ffrio,
Yn dod i'r siop i geisio pop
Am fod Benja bach yn crïo.

A daeth Gwen a Mair ac Elin, ar gefn Gee Geffyl bach i ofyn am Nytmeg a Sinsir a Sinamon a Mes i weithio lot o bwdin. Daeth Beti Bwt i mofyn sebon a thriawd y Buarth, Mw Mw, Me Me a Cwac Cwac ar gefn hen feic peni-farthing fy nhaid i chwilio am rations y tri mochods bach, ia !

Ac yn y siop yma y mae'r plant yn dysgu'r tablau hefyd, oherwydd nid oes hawl i wneud dim ond chwarae yn yr ysgol. Yn lle dweud, un dau—dau, dau dau—pedwar, tri dau—chwech, cewch eu clywed yn dweud ar ôl hen Fenyw Fach Cydweli wrth gyfri'r melysion.

Un dau—Dau loshin
Dai Dai—Dai bach y Sowldiwr
Tri o dai—o dai bach twt
Pedwar Dai—Deio
Pump dau—deg, ond unarddeg i fi.

Yr hen Fenyw fach sydd yn dysgu iddynt sut mae adio a subtracto hefyd, ac oherwydd hynny mae'n well gan blont syms na chwarae. 'Rwy'n siwr y bysech chithe yr un peth pe baech yn dysgu syms fel hyn. Fe fydd yn rhoi pump loshin yn un llaw a chwech yn y llaw arall. "Rhowch y cyfan i gyd yn yr un boced, a dyna beth yw adio," meddai. Ac os rhowch chwi ddwy yn eich ceg, dyna beth yw subtractio. Mae pawb yn hoffi subtractio yn Nhretegan, gallwch fentro.

Marwgofion.

Chwefror 11, yn 60 mlwydd oed bu farw BENJAMIN LEWIS, Caeglas wedi cystudd blin o glefyd y galon. Yr oedd oddi cartref yn gweithio ers blynyddoedd ond daeth adref yr hydref diwethaf i beidio dychwelyd mwy, a threuliodd nosau hir ar lawr yn methu gorffwys. Gŵr rhadlon a distaw ydoedd, ac ni wyddid ei fod yno onibai i chwi ei weld. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Capel-y-Groes, Y Parch. T. O. Williams a'r Parch. S. E. Bowen yn gwasanaethu. Gadawodd briod a phlant i alaru ar ei ôl.

Chwefror 14, 1951, yn 87 mlwydd oed, bu farw ISAAC EDWARDS, Coedeiddigfawr, Pencarreg wedi dihoeni dro. Amaethwr Cymreig ydoedd a gŵr diwylliedig yn hen ystyr y gair. Yr oedd un amser yn ddarllenwr mawr ond yr oedd yn ddall ers tro a'r awydd am ddarllen wedi mynd. Ni bu hyd y gwn i ddyn o natur ffeinach ac ni chredaf bod neb wedi clywed un gair yn uwch na'r llall ganddo erioed. Yr oedd yn aelod ffyddlon ym Mrondeifi, ac yn ŵr o gyngor. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym Mrondeifi, yr angladd yn anghyoedd a'r gweinidog yn gwasanaethu. Gadawodd briod dau fab a merch ynghyd ag un chwaer i alaru o golli tad tyner, priod hawddgar a brawd annwyl. Y mae yr hen yn mynd ac ef, ond odid, oedd aelod hynaf Brondeifi ar y pryd, ond ni alarwn yn ormodol oherwydd fod ei ddyddiau yn hir ac yntau wedi treulio oes ddefnyddiol ar ei hyd.

Chwefror 26, yn 82 mlwydd oed, bu farw Mrs. JONES, Derwendeg, Cwmanne, Llanbedr. Gwywo yn raddol ydoedd a'r cynheddfau yn llescau. Benyw dawel a diwyd ydoedd wedi byw yn y 'gweithiau' ar hyd y blynyddoedd, ond wedi dychwelyd ers blynyddoedd weithian i'r hen fro lle y treuliodd ddyddiau mebyd. Collodd ei phriod rai blynyddoedd yn ôl, a bu wedyn fel aderyn ar naill aden. Yr oedd wedi'i chodi yng Nghaeronnen a daeth yn ôl i orffwys yno yn y diwedd. Gwasanaethwyd ar ddydd ei hangladd —yr ail o Fawrth—gan y Parchedigion Ellis Jones, Anthony Davies a T. O. Williams. Gadawodd un chwaer, yn y gornel, heblaw perthynasau a ffrindiau i wylo deigryn distaw ar ei bedd.

Ar Mawrth 5, yn 73 mlwydd oed, ANN EVANS, gweddw William Evans, Felinban, Llanwnen. Bu'n clafychu am rhai misoedd ond daeth y diwedd yn siom ddirfawr i bawb o bobl Capel-y-Groes a'r cylch. Gwraig dyner a charedig a chymwynasgar fu Mrs. Evans ar hyd ei bywyd, aelod a diacones ffyddlon a diymhongar o'r capel. Bu colli'i phriod yn brofiad chwerw rhai blynyddoedd yn ôl ond daliodd i gario 'mlaen mor siriol ag yr oedd modd. Bu'r achos yng Nghapel-y-Groes ar ei cholled ar ôl ei diweddar phriod ; bydd y golled yn anrhaethol mwy yn awr o golli'r ddau. Ac nid yr un fydd Felinban mwyach i'r llu ohonom fu'n arfer galw'i fewn. Y mae ein cydymdeimlad yn myned at y chwaer, a fu'n gofalu amdani hyd at yr oriau olaf, ac at y brodyr sydd ar ôl, yn eu plith y Parch. L. G. Lewis (B), Caergybi. Claddwyd hi y dydd Iau canlynol gyda'r Parchedigion a ganlyn yn gwasanaethu yn ei hangladd : S. E. Bowen, J. J. Lewis (B), Oswald Williams, Islan Jones, J. Thomas (B) a Noel James.
[Bu'r Marwgof yma ar goll a drwg gennym am hynny.—*Gol.*].

Mai 10, 1951, yn 81 mlwydd oed, wedi cystudd caled a hir bu farw Mrs. MARY DAVIES, Glynhathren, Llanbedr, gweddw y diweddar Mr. E. S. Davies (Water-bailiff). Un o hen deulu Tanlan, y Cribin ydoedd, ac yr oedd ffyddlondeb y teulu hwnnw yn nodweddiadol ohoni. Nid oedd o gorff cryf ond yr oedd o bersonoliaeth serchog, a gwên ar ei hwyneb bob amser. Yr oedd yn gadarn ar egwyddor, ac ni syflid mohoni. Yr oedd wedi ei chaethiwo i'w gwely ers misoedd ond yr oedd yn amyneddgar a siriol yno, a chafodd bob gofal ar law ei hunig ferch. Claddwyd y dydd Llun dilynol ym

mynwent Brondeifi, a'r gweinidog gyda chymorth y Parchedigion Ellis Jones, Noddfa ac E. O. Jenkins, y Llwyn. Gadawodd un ferch a mab, dau frawd a chwaer heblaw perthynasau eraill i wylo deigryn hiraeth melys ar ei hôl.

Newyddion yr Enwad.

CYFARFODYDD SEFYDLU.—Cynhelir Cyfarfodydd Sefydlu a Chroesawu y Parch. J. Marles Thomas i'r Graig a Phantdefaid ar y dydd olaf o Orffennaf a'r dydd cyntaf o Awst. Nos Fawrth y 31 o Orffennaf yn Pantdefaid a dydd Mercher, prynhawn a nos, y Cwrdd Sefydlu yn y Graig. Ceir manylion pellach yn nes ymlaen.

GELLIONNEN A'R GRAIG.—Nos Iau, Mawrth 29, yn Neuadd y Graig, Trebanos, perfformiwyd dwy ddrama un act, dan lywyddiaeth Mr. Benjamin Thomas, "Y Bacws" (J. O. Francis, Cyf. R. E. Griffiths), gan Gwmni Urdd y Benywod dan gyfarwyddyd Mrs. Pritchard. Hefyd "The Poacher" (J. O. Francis), gan Gwmni y bobl ifainc yn cael eu cyfarwyddo gan y Parch. R. I. Pritchard, B.A. Clywyd hefyd am y tro cyntaf "Cerddorfa'r Graig" yn canu amryw o ddarnau. Teimlwn yn wir ddiolchgar i Mr. I. E. Hopkin, B.Sc. am ei ofal mawr o'r ieuenctid yn y cyfeiriad yma. Yr oedd y Neuadd yn gysurus o lawn a phawb yn tystio iddynt gael noson o fwynhad.—Nos Iau a Sadwrn, Mai 3edd a 5ed, yn y Neuadd eto, cafwyd perfformiadau o'r Gomedi "Y Corn" (J. Ellis Williams) gan Gwmni "Y Graig," Trebanos, a'r Parch. R. I. Pritchard yn cyfarwyddo. Dyma'r tro cyntaf i'r cwmni hwn ymddangos ar lwyfan a gwnaethant yn neilltuol o dda. Ni chlywyd y fath chwerthin a churo dwylo o fewn y Neuadd hon, yn enwedig pan gyflwynwyd y cyfarwyddwr i'r cynulleidfaoedd. Bu'r torfeydd bron a hollti'r Neuadd. Llywyddwyd Nos Iau gan J. M. Jones a Nos Sadwrn gan I. E. Hopkin.

LLWYNRHYDOWEN.—Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion cylch Llandysul yn y lle hwn, Sul, Mai 20. Dipyn yn llaith oedd y tywydd, er hynny daeth y pedair ysgol ynghyd yn gryno iawn. 'Roedd y capel yn bur llawn nawn a hwyr. Cyfarfod diddorol iawn oedd cyfarfod y prynhawn, pryd y cymerodd nifer o'r plant ran amlwg. Adroddwyd rhan o'r bregeth ar y mynydd gan bedair o ferched Llwynrhydowen a chymerwyd y weddi gan lanc 15 oed o Gapel-y-Fadfa. Yr holwr oedd J. Marles Thomas, M.A., a chafodd hwyl dda gyda'r plant a hwyl gyffelyb gyda'r oedolion ar Actau 16. Arweiniwyd y canu gan Miss Anne Davies, Pantmoch a gwnaeth yn feistrolgar fel arfer. Wrth yr organ oedd Mrs. Evans, Gwarcwm a Miss Myra Parry, Pontshaen. Wedi te blasus dychwelwyd i'r capel i wasanaeth yr hwyr pryd y cafwyd pregeth amserol iawn gan Mr. Marles Thomas. Yn ystod y gwasanaeth canwyd yn swynol iawn gan Sali Davies o Ysgol y Graig, a chanodd côr plant Capel-y-Fadfa dan hyfforddiant Miss Thomas, Green Grove y dôn Crimond gyda Descant, nes boddio pawb. Cynigiwyd y diolchiadau arferol gan Miss. Evans, Dedwyddfa, Llandysul a Mrs. Jones, Rhydowenfach.

Defnyddiau Da
Crefftwaith Da

Yr ydym heddiw yn cadw ein henw da am ddeunydd a chrefftwaith a adeiladwyd gennym yn ystod yr 90 mlynedd diwethaf. Yn y cyfnod hwn sefydlwyd 35 o ganghennau drwy Gymru a Gorllewin Lloegr i wasanaethu gwŷr a'u meibion.



HODGES AND SONS (CLOTHIERS) LTD.

WEDI EU TEILWRIO YNG NGHYMRU

The Llandyssul Agricultural Society Ltd.

LLANDYSSUL

Visit us before you buy your—

MANURES, FEEDING STUFFS, LIME, GRAIN, CORN, CONDIMENTS, SEEDS, HARDWARE, DRAPERY, GROCERY, CLOTHING, BOOTS AND SHOES, FURNITURE, ETC.

Deal at your own Society and thus save for yourself all middle profits

---

"Esplanade Cafe"

Proprietor—T. P. GRIFFITHS.

HIGH CLASS CONFECTIONER AND CATERER

MORNING COFFEE, LUNCHEONS AND HIGH TEAS

SMALL PARTIES CATERED FOR

"*Cefnogwch Undodwr*"

SEA FRONT : - : BARRY ISLAND

— COMMERCIAL AND GENERAL PRINTERS —

Within easy access to you if you reside in Glamorgan

Read the—

ABERDARE LEADER

(the paper which goes into every home in the Valley)

All enquiries—

PUGH & ROWLANDS, LTD.

ABERDARE LEADER OFFICES

ABERDARE

J. EDRYD STEPHENS & SONS

ELECTRICAL AND RADIO ENGINEERS

2A, BLUE STREET, CARMARTHEN

25 years experience in all classes of Electrical Undertakings

Recently installed in places of worship :—

FLUORESCENT AND ORDINARY LIGHTING

TUBULAR HEATERS

ORGAN BLOWERS

LIGHTING BY ELECTRIC MAINS AND BY PRIVATE PLANTS

Expert on FARM LIGHTING PLANTS

ENGINES, DYNAMOS, SWITCHBOARDS, MOTORS, COOKERS, WASHING MACHINES, REFRIGERATORS, ETC. ALWAYS IN STOCK

BEST MAKERS RADIO RECEIVERS ALWAYS IN STOCK

MODERN EQUIPMENT FOR RADIO REPAIRS

We employ an expert for every Job

FREE ADVICE AND ESTIMATES

The Shop for Value and Selection. Est. 1875.

E. R. DAVIES (L.S.O. Lond.) & SONS

Phone—3137

WATCHMAKERS

. . JEWELLERS . .

SILVERSMITHS

Private Room and Special Attention given to Engagement and Wedding Parties.

LARGE SELECTIONS OF CUPS AND MEDALS.

I, Wind Street

Llandyssul . . . . Cards.